

## MHB022 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

### Senedd Cymru | Welsh Parliament

Bil arfaethedig – Datblygu'r Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) |  
Proposed Development of the Mental Health Standards of Care (Wales) Bill

Ymateb gan: Tanya Nash, Pennaeth Polisi Dros Dro, Ombwdsmon  
Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Evidence from: Tanya Nash, Acting Head of  
Policy, Public Services Ombudsman for Wales

### Sylwadau cyffredinol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gwnaf ymateb yn fanylach i'r cynigion penodol pan gyhoeddir y papur gwyn. Fodd bynnag, ar y cyfan, rwy'n cefnogi'r diben cyffredinol y mae'r Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl yn ceisio'i gyflawni lle mae gan gleifion fwy o rym, mwy o ddewis a dylanwad dros eu triniaeth ac yn cael yr urddas a'r parch y maent yn eu haeddu, lle mae hyn yn arwain at lai o anghyfiawnder a chamweinyddu.

Mae'n ymddangos bod y pedair egwyddor arfaethedig yn cyd-fynd â'r Erthyglau Hawliau Dynol ac egwyddorion hawliau dynol sefydledig FREDA sef tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth, sy'n cael eu mabwysiadu a'u hyrwyddo ar draws ystod o leoliadau cyhoeddus a gofal iechyd. Wrth sicrhau cyfiawnder i bobl yng Nghymru, rydym yn defnyddio'r egwyddorion hyn bob dydd wrth ymchwilio i gwynion. Maent yn dangos i ni fod materion hawliau dynol a chydaddoldeb yn aml yn anwahanadwy oddi wrth bobl sy'n cael eu trin yn annheg.

Dylai'r pedair egwyddor arfaethedig geisio gwella'r gwerthoedd sefydledig hyn ac nid ychwanegu mwy o gymhlethdod at y llwybrau sydd eisoes yn anodd i bobl sydd, yn aml, yn fwyaf agored i niwed.

Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn rhannu rhai enghreifftiau o'n gwaith achos i ddangos y mathau o anghyfiawnder y mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn eu hwynebu.

[Bwrdd Iechyd Hywel Dda 202002558](#)

Canfuom fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi methu â chymryd camau i ddiwallu anghenion clinigol Mr C ar ôl i wasanaeth seicoleg ddod i ben yn sydyn, na rhoi cynllun ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Gadawyd prif ofalwr Mr C, sef Ms B, heb ddigon o gefnogaeth i reoli ei ymddygiad heriol. Nid oedd y cyfathrebu â Ms B yn ddigonol ac roedd yn ei gadael yn anwybodus.

[Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chartrefi Cymru – 201806533 201806536 201806537](#)

Dioddefodd Mr N o seicosis a achoswyd gan gyffuriau a chafodd anaf i'r ymennydd. Derbyniodd becyn gofal a ariannwyd gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a ddarparwyd gan Cartrefi Cymru. Yn anffodus, tagodd Mr N wrth fwyta ar ei ben ei hun yn ei ystafell wely. Yn dilyn cwyn gan fam Mr N, Mrs M, bod methiannau cyfathrebu wedi arwain at Cartrefi Cymru ddim yn cael asesiadau risg a chynlluniau gofal ar gyfer Mr N, ni chanfuom unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud â dyfarnu'r contract, y telerau penodol yn ymwneud â Mr N a chyfrifoldebau'r partïon dan sylw.